

## **CYFARFOD ARBENNIG O BWYLLGOR Y TY**

**Dyddiad:** 8 Gorffennaf 2004

**Amser:** 9.00am

**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda A, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd

### **Aelodau'n bresennol:**

Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)  
Janet Davies, AC Plaid Cymru  
Michael German, AC Democratiaid Rhyddfrydol  
William Graham, AC Ceidwadwyr  
Janice Gregory, AC Llafur  
Karen Sinclair, AC Llafur  
Llywydd (yn bresennol)

### **Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad  
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty  
John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol  
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad  
Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau  
Gwyn Griffiths, Is-adran y Gyfraith  
Roger Beale, Dirprwy Bennaeth y Swyddfa Ffioedd  
Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau  
Sara Lloyd, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty  
Catherine Morris, Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd

### **Ymddiheuriadau:**

Lorraine Barrett, AC Llafur  
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol  
Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd

### **1 Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (2005/6) HC(2)-05-04(p1)**

Mewn ymateb i gais yr Aelodau yn y cyfarfod diwethaf cyflwynwyd mwy o wybodaeth fanwl ynghylch y gyllideb gan gynnwys gwahanu'r costau'n gysylltiedig â'r adeilad newydd oddi wrth gynigion eraill y gyllideb.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Gweinidog Cyllid wedi nodi ei bod yn hapus â'r gostyngiad yn y gyllideb ddangosol a oedd yn awr o fewn y cynnydd yng nghanran y gyllideb y cytunwyd arno. Drwy edrych eto ar

gynigion y gyllideb gychwynnol, llwyddwyd i gael gostyngiad cyffredinol o ryw £980,000, yn bennaf drwy drosglwyddo rhai o'r prosiectau unigryw i arian Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn, ond hefyd drwy addasu amcangyfrifon. Roedd y Gweinidog Cyllid yn cydnabod efallai y byddai angen adolygu hyn yn dilyn adroddiad arolwg y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion.

Roedd y Gweinidog Cyllid wedi cadarnhau ei bod hi'n cefnogi'r cynnig i gwrdd â'r costau angenrheidiol yn gysylltiedig â rhedeg yr adeilad newydd fel cyfrifoldebau ychwanegol. Wrth edrych yn fanylach ar y costau yn gysylltiedig â rhedeg yr adeilad newydd gwelwyd gostyngiadau cychwynnol, ond disgwyliwyd am gyngor oddi wrth y contractwyr adeiladu a rheolwyr y prosiect ynghylch y gost o redeg yr adeilad. Cyngorwyd yr aelodau ei bod hi'n debygol y byddai'r swm a nodwyd ar gyfer rhedeg yr adeilad yn gostwng, ond y byddai angen aros i gael profiad o redeg yr adeilad cyn y gellid cadarnhau'r costau a amcangyfrifwyd. Byddai'r rhain yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor maes o law.

Cytunodd yr aelodau ar y cyfraniad mwyaf posibl ar gyfer dodrefnu'r adeilad newydd o Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn cronedig, ond pe bai'r gwir gostau'n llai na'r hyn a amcangyfrifwyd, byddai cyfraniad Pwyllgor y Ty yn lleihau yn unol â hynny.

Gofynnodd y Llywydd am sicrwydd y byddai'r adeilad newydd yn cyrraedd safon foddhaol erbyn i'r gwaith gael ei gwblhau a chyn i GSC fod yn gyfrifol am reoli'r adeilad. Cytunwyd y byddai'r cynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyfarfod Llawn yn nodi y byddai Pwyllgor y Ty yn cytuno'n ffurfiol i gymryd y cyfrifoldeb am yr adeilad ar ôl iddo dderbyn adroddiad yn nodi fod yr adeilad wedi'i gwblhau'n foddhaol.

Gofynnodd yr aelodau am gael gwybodaeth reolaidd ar wir wariant y gyllideb o'i gymharu â'r rhagolygon o wariant yn ogystal â'r gwir wariant alldro.

### **Gweithredu: Y Swyddfa Ffioedd**

Cymeradwyodd yr aelodau gyllideb ddrafft GSC ar gyfer 2005-06 a'r cyllidebau dangosol ar gyfer 2006-07 a 2007-08. Gofynnodd William Graham i'w wrthwynebiad gael ei gofnodi. Awdurdodwyd swyddogion i bennu amser addas yn y Cyfarfod Llawn, cyn 10 Hydref 2004, i wahodd y Cynulliad i gymeradwyo bod y cyfrifoldeb o reoli'r adeilad newydd yn cael ei drosglwyddo i Bwyllgor y Ty ar adeg benodol ar ôl i'r gwaith ar yr adeilad gael ei gwblhau ac i ganiatáu iddo wario arian ar yr adeilad yn y cyfnod tan hynny.

### **Gweithredu: Clerc y Pwyllgor**

## **2 Treialu Cofnod Gair-am-Air o Gyfarfodydd Pwyllgorau HC(2)-05-04(p2)**

Roedd yr aelodau'n croesawu'r papur a oedd yn amlinellu'r gwahanol bosibiliadau o ran cynhyrchu cofnod cwbl ddwyieithog. Roedd y papur yn rhoi mwy o fanylion ar yr opsiynau oedd ar gael ar gyfer darparu'r adnodd angenrheidiol i lunio cofnod gair-am-air o drafodion y pwyllgorau.

### Cynhyrchu Cofnod Cwbl Ddwyieithog

Cytunodd yr aelodau i barhau â'r opsiwn yn y papur lle byddai cyfieithwyr yn cyfieithu cyfraniadau Saesneg i'r Gymraeg yn uniongyrchol o'r adlif sain, yn hytrach na chyfieithu fersiynau ysgrifenedig o'r Cofnod a fyddai wedi'u golygu.

Byddai'r Cofnod cwbl ddwyieithog felly'n cael ei gyhoeddi o fewn 24 awr i gynnal trafodion y Cynulliad, yn hytrach nag o fewn 5 niwrnod fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai angen i olygydd safoni a golygu'r testun ymhellach yn hwyrach ymlaen yn y broses. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen y Cofnod 5 niwrnod presennol ac yn diddymu'r costau sy'n gysylltiedig â chyfieithu'n allanol.

O dan yr opsiwn hwn byddai'n rhaid recriwtio mwy o gyfieithwyr i weithio'n rhan-amser yn ystod y tymor, gan olygu gostyngiad o tua £73,000 yn y gost bresennol o gyfieithu'r Cofnod mewn 5 niwrnod. Byddai'r gwaith yn cael ei wneud gan dîm penodol o gyfieithwyr yn y gwasanaeth cyfieithu a fyddai'n gweithio'n agos â golygyddion Cofnod y Trafodion. Nododd yr aelodau y gallai rhai manteision ddeillio o'r dull integredig hwn o weithio dros gyfnod o amser, ond o gofio ei fod yn gam arloesol i'w gymryd, byddai'n rhaid monitro'r risgiau'n agos a byddai'n rhaid llunio dadansoddiad o'r risgiau.

Cytunwyd y dylid cadw'r contract cyfredol gyda'r cyfieithwyr allanol i leihau'r risg.

### **Gweithredu: Gwen Parry**

#### Cofnodion gair-am-air o'r Pwyllgorau

Roedd yr aelodau'n cefnogi'r ddarpariaeth o gofnod gair-am-air o gofnodion y pwyllgorau ac yn cymeradwyo'r opsiwn o gynyddu'r gallu mewnol i wneud y gwaith hwn. Byddai hyn yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru a'r Rheolau Sefydlog yn llwyr. Pe byddai angen staff ychwanegol i gyflawni'r gwasanaeth hwn, byddai'r staff ychwanegol o fantais hefyd i gynhyrchu Cofnod 24 awr cwbl ddwyieithog o Drafodion y Cynulliad.

### **Gweithredu: Gwen Parry**

Roedd yr aelodau'n wylidwrs o broblemau posibl yn gysylltiedig â recriwtio digon o staff o ansawdd ar gyfer y swyddi o fewn yr amserlen hon. Gofynnodd yr aelodau i broses recriwtio Adnoddau Dynol gael ei chyflymu os yn bosibl.

**Gweithredu: Gwen Parry / John Bowley**

Gofynnodd yr aelodau i swyddogion archwilio dulliau o gydweithio gyda Phrifysgolion i hyfforddi ac i ddatblygu myfyrwyr iaith ac am gyrsiau a fyddai'n addas i'r gwaith arbenigol hwn. Byddai Gwen Parry yn llunio papur ar yr opsiynau posibl.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Gofynnodd yr aelodau am gyfeirio unrhyw broblemau mawr a fyddai'n deillio o'r opsiynau y cytunwyd arnynt uchod i Bwyllgor y Ty.

**3 Amserlen Caffael a Gosod Dodrefn ar gyfer Siambr Adeilad Newydd y Cynulliad HC(2)-05-04(p3)**

Nododd yr aelodau yr amserlen ar gyfer caffael a gosod dodrefn rhydd ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad. Cysylltir â Phwyllgor y Ty ac eraill ynghylch opsiynau, gan gynnwys ynghylch darparu sampl o eitemau, yn ystod tymor yr hydref. Gofynnwyd i'r aelodau e-bostio Dianne Bevan gydag unrhyw awgrymiadau ar gyfer caffael dodrefn. Byddai papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor y Ty ym mis Tachwedd. Nodwyd efallai y byddai angen cyfarfod arall yn yr hydref i ystyried yr opsiynau'n fanylach.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

**4 Unrhyw Fater Arall**

Cytunwyd pe bai ymwelwr pwysig yn annerch y Cynulliad cyn 2pm y byddai staff yn rhybuddio unrhyw Aelod oedd ar fin mynd i'r Siambr rhag iddynt dorri ar draws unrhyw ddigwyddiad.

**Gweithredu: John Bowley**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 7 Hydref 2004 – Cyfarfod Cyhoeddus Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty